



**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C
27 Medi, 2018, Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin**

Cyfarfod Rhif 420

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Bwrdd)
	Siân Lewis	(Aelod o'r Bwrdd)
	John Davies	(Aelod o'r Bwrdd) eitemau 1-5
	Owen Derbyshire	(Aelod o'r Bwrdd)
	Rhodri Williams	(Aelod o'r Bwrdd)
	Guto Harri	(Aelod o'r Bwrdd) eitemau 1-5
	Anita George	(Aelod o'r Bwrdd)
Staff S4C:	Owen Evans	(Prif Weithredwr)
	Amanda Rees	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Gwyn Williams	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd y Bwrdd)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol)
	Rhidian Dafydd	(Rheolwr Rhaglen Waith Yr Egin) eitem 8
	Sharon Winogorski	(Prif Swyddog Ariannol) eitem 8
	Steve Cowin	(Prif Swyddog Technegol) – eitem 8
	Carys Evans	(Arweinydd Tîm Data a Dadansoddi) – eitem 7
	Huw Jones	(Uwch Swyddog Ystadegol) – eitem 7
	Bethan C. Williams	(Cynorthwy-ydd Ysgrifennydd y) Bwrdd
Ymddiheuriadau:	Llion Iwan	(Pennaeth Dosbarthu Cynnwys)
	Hugh Hesketh Evans	(Aelod o'r Bwrdd)

COFNODION

MATERION SEFYDLOG:

- 1. Croeso a Datganiadau Diddordeb**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod cyntaf y Bwrdd yn Yr Egin.

Nodwyd mai dyma gyfarfod olaf John a Guto fel aelodau'r Bwrdd. Diolchodd y Cadeirydd iddynt ar ran yr holl Aelodau am eu gwasanaeth, eu hymroddiad a'u cyfraniad pwysig i waith S4C a'r Bwrdd.

Gofynnwyd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran Bwrdd yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.
- 2. Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 419 a gynhaliwyd ar Orffennaf 20fed 2018**
Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 419 a gynhaliwyd ar Orffennaf 20fed.

Cymeradwywyd y cofnodion gan y Bwrdd.

Nododd y Cadeirydd fod y cofnod a oedd wedi ei ddarparu yn fwy cryno na'r arfer, a bod hyn yn rhan o ymgais i symleiddio a chrynhai'r papurau.

3. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 419**

Amodau prydles yr Egin.

Roedd amodau cytundebol y brydles yn nodi fod angen i oddeutu 60% o'r gofod ar y llawr gwaelod gael ei lenwi cyn y byddai angen i S4C dalu rhent i'r Drindod, a nodwyd fod nifer sylweddol o denantiaid wedi arwyddo prydlesi ar gyfer y llawr uchaf.

TAC / Hyfforddiant

Nodwyd y bydd cyrsiau cychwynnol yn cael eu cynnal gan TAC yn digwydd cyn diwedd y flwyddyn, ac y byddai cyrsiau eraill yn dilyn yn y flwyddyn newydd.

Cyfarfod gyda Ken Skates AC

Roedd trafodaethau'n parhau gyda swyddogion y Llywodraeth parthed sefydlu cronfa cyd-gynhyrchu newydd, a bydd diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r bwrdd erbyn mis Tachwedd.

Cefnogaeth mewn egwyddor i ganiatáu'r Bwrdd Masnachol i fuddsoddi mewn cwmnïau cynhyrchu:

Nodwyd y bydd OE yn cyflwyno canllawiau ac egwyddorion i gyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref.

Holiadur Staff.

Cyflwynir canlyniadau'r holiadur i gyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref.

Aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd

Cyflwynodd y Cadeirydd argymhelliad diwygiedig ar gyfer aelodaeth pwyllgorau'r Bwrdd. Roedd yr argymhelliad yn cymryd i ystyriaeth ymddiswyddiad GH, a'r posibilrwydd y byddai HHE yn parhau fel aelod, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol.

Pwyllgor Archwilio

(Gan gynnwys cyfrifoldebau Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth a chraffu'r prosiectau Adleoli a Chydaleoli)

HHE (cadeirydd), AG, RhW, HJ (gyda HJ yn cael ei benodi'r aelod ffurfiol o'r Pwyllgor).

Pwyllgor Cynnwys

HJ (cadeirydd), RhW, SL, OD.

Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth

SL (cadeirydd), RhW, HHE.

Bwrdd Masnachol

OD, AG.

Argymhellwyd y dylai dyletswyddau'r Pwyllgor Craffu gael eu hymgorffori yn nyletswyddau'r Pwyllgor Archwilio.

Cymeradwywyd yr argymhellion uchod ar gyfer aelodaeth y pwyllgorau a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Craffu.

Mesuryddion Perfformiad.

Nodwyd y bydd cyflwyniad ar fesuryddion perfformiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Hydref.

4. **Pwyntiau Gweithredu**
Cyflwynwyd y Pwyntiau Gweithredu er gwybodaeth, a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

Partneriaethau

Cyflwynir diweddariad parthed datblygiadau partneriaethau Dysgwyr i'r Bwrdd ym mis Hydref.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Adroddwyd fod Cynllun Gweithredu S4C wedi ei gyflwyno i DCMS a'r Gweinidog, Margot James. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn monitro cyflawniad y cynllun.

Gweithredu argymhellion strwythurol yr Adolygiad.

Cyflwynwyd papur yn rhoi diweddariad ar faterion strwythurol yn deillio o'r Adolygiad.

Perthynas gydag Ofcom

Nodwyd fod crynodeb o'r berthynas reoleiddio rhwng S4C ac Ofcom wedi ei gyhoeddi ar wefan S4C.

<http://www.s4c.cymru/cy/amdanom-ni/awdurdod/page/28868/rheoleiddio-gwasanaethau-s4c/>

Bydd MOU drafft yn cael ei gyflwyno i Ofcom Cymru yn dilyn cwblhau'r Rheolau Sefydlog drafft.

Rheolau Sefydlog

Esboniwyd bod drafft diwygiedig o Reolau Sefydlog S4C yn cael ei baratoi er mwyn cyflawni'r argymhellion parthed gweithredu fel Bwrdd Unedol Cysgodol. Cyflwynir y rheolau diwygiedig drafft i gyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref ar gyfer ei ystyriaeth.

Penodi Archwilwyr Allanol

Roedd trafodaethau'n parhau gyda DCMS, ond hyd yma, nid oedd DCMS wedi cyflwyno opsiynau ar gyfer penodi'r NAO yn archwilwyr allanol S4C.

Diwrnod i Ffwrdd y Bwrdd

Nodwyd y bydd cyfle i'r Bwrdd drafod pynciau'r Diwrnod i Ffwrdd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref, gan gynnwys opsiynau hir-dymor ar gyfer y gwasanaeth.

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Adleoli - diweddariad

Nodwyd fod y symud wedi digwydd yn hwylus, diolch i RhD a'r tîm adleoli. Roedd oddeutu 20 aelod o staff wedi gadael yn ddiweddar, a staff newydd wedi cychwyn, gyda'r mwyafrif yn byw yn ardal Caerfyrddin. Bydd y Tîm Rheoli yn parhau i fonitro'r risgiau staffio'n ofalus, yn enwedig wrth i'r cyfnod TBYS cyntaf ddod i ben ym mis Chwefror. Roedd yn debygol y bydd nifer o staff yn penderfynu gadael cyn hynny hefyd.

Roedd y cynllun gweithio'n hyblyg a'r buddsoddiad mewn offer TG wedi bod yn bwysig iawn er mwyn sicrhau parhad busnes S4C yn ystod cyfnod y symud, ac fe fydd hefyd yn bwysig yn ystod y cyfnod TBYB.

Strwythur y gweithgareddau Masnachol

Nodwyd y bydd diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Hydref er mwyn cyflwyno manylion y strwythur arfaethedig a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'r cwmnïau masnachol a'u cyfarwyddwyr.

Datblygu'r Strategaeth Ddigidol

Cafwyd diweddariad am y cynlluniau digidol. Bydd Ruth Meadows yn ymuno gyda'r tim cyfathrebu er mwyn canolbwyntio ar weithgareddau cyfathrebu digidol.

Cytundeb golygyddol S4C a'r BBC

Adroddodd EM fod y BBC wedi cyflwyno drafft cychwynnol o Gytundeb Golygyddol, sy'n un o ofynion y Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd, ac y byddai swyddogion yn trafod y drafft gyda'r BBC.

Mynegodd y Cadeirydd elfen o bryder nad oedd cytundeb yn ei le ar gyfer darpariaeth y deg awr bron i flwyddyn ar ôl arwyddo'r Cytundeb Partneriaeth newydd gyda'r BBC.

Penderfynwyd y dylid cyflwyno adroddiad cynnydd misol i'r Bwrdd parthed trafodaethau gyda'r BBC am y Cytundeb Golygyddol arfaethedig.

7. Cyflwynwyd dadansoddiad o gyfraniad gwahanol raglenni ac elfennau o'r amserlen i berfformiad y gwasanaeth, a thrafodwyd camau oedd dan ystyriaeth ar gyfer y flwyddyn newydd.

Penderfynwyd y dylid cyflwyno diweddariad i'r Strategaeth Cynnwys.

8. **Diweddariad Cydleoli**

Cyflwynodd SC ddiweddariad am y Prosiect Cydleoli.

Systemau TG

Roedd gwaith datblygu ac integreiddio meddalwedd megis BSM yn parhau. Roedd rhai materion amseru yn achosi pryder ar adegau, ond roedd y prosiect yn parhau i fod ar-amser, gyda chydweithredu a chyd-drafod cadarnhaol rhwng swyddogion S4C a'r BBC.

Archif

Disgwylir ddiweddariad gan y BBC o fewn yr wythnosau nesaf o ran camau nesaf y prosiect i gyfuno archif ddigidol S4C a'r BBC. Yn y cyfamser, mae gwaith digideiddio archif S4C yn parhau.

Y Cynllun Ariannol

Nodwyd bod y model ariannol yn cael ei ddiweddarau bob chwe mis, gyda chyfarfodydd cyson yn cael eu cynnal bob pythefnos er mwyn monitro'r costau.

Y Prosiect Adleoli

Cyflwynodd RhD ddiweddariad am y Cynllun Adleoli.

Roedd syrfewyr S4C wedi adrodd ar gyflawniad y Drindod yn erbyn y disgwyliadau cytundebol, ac roedd y rhan fwyaf o amodau'r les wedi eu cyflawni.

Bwriedir cynnal lansiad Canolfan S4C ar y 1af o Dachwedd, ac mae sgysiau yn parhau rhwng CHR a GW o ran ceisio cael gweinidogion o Lywodraeth Llundain a Chymru i fynychu.

Cafwyd trafodaeth am sut y dylid craffu prosiectau o'r fath yn y dyfodol, gan gynnwys ystyried dulliau llywodraethiant, a'r disgwyl i swyddogion gyflwyno gwybodaeth gynhwysfawr a chywir.

Roedd hefyd angen sicrhau fod pwrpas prosiectau o'r fath yn cael ei gyfleu'n glir i'r staff.

Cyfarfod â staff S4C

Penderfynwyd y dylid parhau gyda'r drefn o gynnal ciniawau anffurfiol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd a staff yn unig, heb reolwyr yn bresennol, yn nhair canolfan S4C. Yn ogystal, nodwyd yr angen i ystyried dulliau eraill er mwyn i'r Aelodau a'r staff ddod i adnabod ei gilydd yn well.

9. **Adroddiad Cyfathrebu Chwarter 1, 2018-19**

Cyflwynodd GW Adroddiad Cyfathrebu Chwarter 1, 2018-19 a chyfeiriwyd yn benodol at flaenoriaethau cyfathrebu'r cyfnod gan gynnwys Ffit Cymru a Digwyddiadau'r haf.

Cyfeiriodd at y risgiau staffio presennol o ganlyniad i'r cynllun Adleoli. Roedd yn monitro ac yn ceisio rheoli'r risgiau, gan geisio sicrhau trosglwyddiad gwybodaeth o fewn yr adran.

Roedd sesiynau hyfforddi, a sesiynau trafod gyda chynrychiolwyr y wasg wedi eu trefnu er mwyn i staff newydd ddod i ddeall y diwydiant ac anghenion y wasg o ran derbyn straeon am arlwy S4C.

Penderfynwyd yn ogystal y dylid ystyried fformat yr Adroddiad Cyfathrebu er mwyn ceisio amlygu'r cyswllt rhwng ymgyrchoedd hyrwyddo a pherfformiad elfennau'r amserlen.

Cyfleu rhaglenni'n hwyr

Nodwyd pryder yr Aelodau parthed y risgiau y mae cyfleu rhaglenni'n hwyr gan rai cwmnïau cynhyrchu'n ei greu i allu S4C i hyrwyddo rhaglenni, a phroblemau technegol. Penderfynwyd y dylid cyflwyno diweddariad cynnydd i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Hydref.

10. **Adroddiad o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynnwys**

Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar Medi 26ain ac adroddiad ar lafar o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar Hydref 24ain er gwybodaeth. Nodwyd fod y cyfarfod ddoe wedi bod yn gyfle i drafod perfformiad diweddar y gwasanaeth, gan gynnwys yr adroddiad a drafodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd yn gynharach. Nodwyd yr angen i sicrhau nad oedd y Pwyllgor Cynnwys a'r Awdurdod yn dyblygu gwaith, ond nodwyd hefyd ei bod yn bwysig fod y Pwyllgor Cynnwys yn gallu craffu perfformiad y gwasanaeth yn fwy manwl nac oedd yn bosibl yng nghyfarfod y Bwrdd.

11. **Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth**

Cyflwynodd PW argymhelliad ar ran HHE yn ymwneud â phenodi archwilwyr mewnol. Esboniwyd bod cytundeb yr archwilwyr mewnol wedi dod i ben ar ddiwedd 2017-18. Cyn gallu ail-dendro'r gwasanaeth, roedd swyddogion wedi bod yn disgwyl i ddeall beth fyddai awgrymiadau DCMS o ran opsiynau ar gyfer penodi'r NAO yn archwilwyr allanol S4C. Gan nad oedd DCMS wedi cyflwyno argymhelliad hyd yma parthed archwilwyr allanol, roedd angen ystyried gofynion archwilio mewnol S4C . Roedd HHE, y Cadeirydd a PW wedi trafod y mater, ac yn argymhell ail-benodi PWC am flwyddyn ar gyfer 2018-19, gan ystyried opsiynau hir dymor yn dilyn cynnal trafodaethau pellach gyda DCMS parthed trefniadau archwilio allanol.

Penodi Archwilwyr Mewnol

Penderfynwyd ail-benodi PWC yn archwilwyr mewnol S4C ar gyfer 2018-19, ac i ystyried opsiynau ar gyfer y cyfnod o 2019-20 yn dilyn trafodaethau pellach gyda DCMS parthed opsiynau archwilio allanol.

12. **Rhaglenni'r mis aeth heibio**

Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio.

13. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

14. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.